# Adroddiad Grŵp Prosiect BGC

Paratowyd gan: Ieuan Griffiths & Sara Dafydd

| | |
|---|---|
| **NOD CYNLLUN LLESIANT** | Bydd pob prosiect peilot sy'n seiliedig ar lefydd yn anelu at fynd i'r afael â'r 6 nod llesiant fel yr amlinellir yng Nghynllun Llesiant Lleol 2018-23, gan gyflenwi drwy fframwaith yn seiliedig ar lefydd. Mae'n blaenoriaethu integreiddio a chyfrannu ar gyfer cydnerthedd cymunedau ac unigolion. |
| **Ein Gwerthoedd** | Y Gymraeg, Taclo Anghydraddoldeb, Cymryd Rhan, Cynaliadwyedd, Arwain drwy Esiampl |
| **Enw Grŵp Prosiect** | Llesiant Llanbedr Pont Steffan |
| **Cadeirydd** | **Elen James**, Cyngor Sir Ceredigion |

| **Aelodaeth y Grŵp Prosiect** *(Yr enwau mewn print **trwm** oedd yn bresennol yn y cyfarfod)* | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | **Naomi McDonagh, Sara Dafydd**, **Carwyn Young**, **Cathryn** Morgan, **Connor Cook**, Sarah Groves-Phillips, Gethin Jones, **Llinos Hallgarth**, **Lowri Evans**, Lynne Walters, Rachel Auckland, Alison Heal, **y Cynghorydd Ann Bowen Morgan**, **Sian Salcombe, Sara Humphreys**, Bethan James | Cyfoeth Naturiol Cymru | Aled Davies, **Rachel Jarvis**, Thomas Vetter |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Jina Hawkes, Peter Skitt, **Terri-Ann Patrick, Meinir Harries** | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | **Gwilym Dyfri Jones, Emyr Jones**, **Hazel Thomas** |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| Heddlu Dyfed-Powys | Christina Fraser, Matthew Howells | Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru | Neil Evans, Iwan Cray |
| Barcud | Catrin Owen, **Helen Draycott** | CAVO | Hazel Lloyd-Lubran, **Teleri Davies** |
| Home-Start | **Sharon Morris** | Ysgol Bro Pedr | **Deiniol Williams** |
| Banc Bwyd Llanbed | **Julia Lim** | Canolfan Teulu Llambed | Elin Miles |
| Arts4Wellbeing | Mike Hotson, Sara Wentworth | Tai Wales & West | **Rhiannon Ling** |
| Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru | **Roxanne Treacy**, Vikki Butler | | |

**CRYNODEB O GYFARFOD GRŴP PROSIECT**

**Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect:**

**5.1 Croeso, Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Oherwydd cyfyngiadau amser ac Agenda llawn, ni nodwyd ymddiheuriadau.

**5.2 Cofnodion a materion sy'n codi o'r cyfarfod blaenorol**

Cytunodd pob aelod ar gywirdeb y cofnodion blaenorol. Cafodd cyflwyniad ar Ganolfan Tir Glas a diweddariad gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ei gynnwys fel rhan o'r cyfarfod. Darparwyd y diweddariadau canlynol o ran gweddill y camau gweithredu:

*- Sara Dafydd (SD) i weithio gyda phartneriaid i baratoi taflen sy'n amlinellu llwybrau o gymorth sy'n benodol i Lanbedr Pont Steffan i'r rhai mewn angen*.

O ganlyniad i ddosbarthu taflen Costau Byw cynhwysfawr a baratowyd gan Dîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant Cyngor Sir Ceredigion (CSC) i bob cartref yng Ngheredigion sy'n amlinellu cefnogaeth i drigolion, yn dilyn gohebiaeth ag aelodau o'r is-grŵp, cytunwyd y byddai creu taflen ychwanegol sy'n benodol i Lanbedr Pont Steffan yn ddryslyd ac y byddai perygl o lastwriaethu'r negeseuon yn y daflen Costau Byw.

*- SD i ddraffto Cynllun Gweithredu a'i gylchredeg.*
Gan fod y rhan helaethaf o'r templed Cynllun Gweithredu blaenorol yn ymwneud â'r gwaith arfaethedig parthed y daflen gymorth sy'n benodol i Lanbedr Pont Steffan, cynigiwyd bod Cynllun Gweithredu newydd yn cael ei lunio a'i ddosbarthu i aelodau o'r is-grŵp.
**CAM GWEITHREDU: SD i ddrafftio Cynllun Gweithredu drafft a chylchredeg i aelodau is-grŵp.**
*- Aelodau i ystyried pwy arall all elwa o fynychu'r is-grŵp hwn.*
Croesawodd y Cadeirydd aelodau is-grŵp newydd sef y Cyng Ann Bowen Morgan, Sian Salcombe a Sara Humphreys i'r cyfarfod.

**5.3 Cyflwyniad Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru – Roxanne Treacy**
Mae'r rhaglen Cyd-gynhyrchu a chyfranogiad y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSBs) yn rhaglen 5 mlynedd sy'n dod i ben ym mis Chwefror 2026 sydd wedi'i ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol: Cefnogi Syniadau Gwych. Mae Rhwydwaith Cyd-Gynhyrchu Cymru (RhCC) wedi bod yn gweithio gyda chlwstwr Gorllewin Cymru (Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion) ers Ionawr 2022. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn argymell bod cyrff cyhoeddus yn ymgorffori diwylliant o gyfranogiad gan ddinasyddion a rhanddeiliaid drwy gael sgyrsiau ystyrlon â chymunedau i ddarganfod beth sy'n bwysig iddyn nhw, a sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu hystyried a'u hadlewyrchu pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud. Mae RhCC yn gweithio ochr yn ochr â BGC a'i aelodau i gefnogi gweithredu ymarferol a datblygu eu galluoedd, eu gallu a'u hyder.

Mae RhCC yn gobeithio creu'r amodau ar gyfer perthnasoedd cynaliadwy rhwng sefydliadau a gyda chymunedau a dinasyddion, drwy seilwaith cyfranogiad parhaus. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd ymgysylltu ystyrlon gan gynnwys lleisiau na chlywir yn aml, sy'n arwain at gyfranogiad cymunedau â chyd-gynhyrchu atebion lleol, lle mae pobl a gweithwyr proffesiynol yn trosoli eu cryfderau a'u hadnoddau i ddylanwadu newid cadarnhaol. Mae'r Tîm yn gweithio gyda BGC i atgyfnerthu perthynas o ymddiriedaeth gyda chymunedau trwy'r Cynlluniau Llesiant Lleol, a chefnogi'r symudiad o ymgysylltu i gyfranogi. Dywedodd RT fod RhCC wedi dylunio a chyd-hwyluso sesiwn ymgysylltu ar y Cynllun Llesiant Lleol 2023-2028 yn ddiweddar gyda 13 ysgol gynradd a 3 ysgol uwchradd ochr yn ochr ag aelodau o Dîm Polisi a Pherfformiad CSC. Mae fersiynau sy'n addas i blant o'r adborth yn cael eu cynhyrchu ar hyn o bryd a byddant yn cael eu dosbarthu i'r ysgolion dan sylw pan fyddant wedi'i cwblhau.

Mae RhCC yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r 3 clwstwr BGC y maent yn eu cefnogi, fel glwstwr ac ar lefel leol. Pwysleisiodd RT hefyd fod y Rhwydwaith Dysgu yn adnodd defnyddiol, lle mae RhCC yn cysylltu â'r BGC ehangach ledled Cymru i rannu gwersi a ddysgwyd, canfyddiadau a phrofiadau trwy fwledi newyddion bob pythefnos a digwyddiadau dysgu misol ar gyfer pob BGC a'u haelodau.

**5.4 Cais grant Rhwydwaith Fwyd a Phartneriaethau Bwyd Lleol Ceredigion – Cathryn Morgan**

Darparodd Cathryn Morgan (CM) drosolwg o Rwydwaith Bwyd Ceredigion. Sefydlwyd y grŵp yn wreiddiol ym mis Rhagfyr 2019 ar ôl i Lywodraeth Cymru ddyrannu cyllid er mwyn lliniaru effeithiau tlodi bwyd - Roedd aelodau cychwynnol y grŵp yn cynnwys y rhai a oedd yn ymwneud â Banciau Bwyd, Oergelloedd Cymunedol a mentrau bwyd dros ben, ond ers hynny mae wedi tyfu i gynnwys tyfwyr bwyd i sicrhau bod ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i gynaliadwyedd. Wedi'i gydlynu gan yr Awdurdod Lleol, mae'r Grŵp yn cyfarfod bob chwarter ynghyd â chynrychiolydd o Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO), Ben Lake AS ac Elin Jones MS i drafod unrhyw dueddiadau neu bryderon sy'n dod i'r amlwg, yn ogystal â thrafod cyllid, cyfleoedd i rwydweithio a sicrhau cysylltiadau da rhwng grwpiau cymunedol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.
**CAM GWEITHREDU: CM i rannu rhestr o aelodau Rhwydwaith Bwyd Ceredigion.**

Darparwyd diweddariad hefyd gan CM ar ddatblygiadau'r Grant Partneriaethau Bwyd Lleol Ceredigion. Yn unol ag ardaloedd Awdurdodau Lleol eraill sydd wrthi'n tynnu gwahanol grwpiau bwyd at ei gilydd, gwnaed cais am gyllid Llywodraeth Cymru ar ddiwedd 2022 gyda'r nod o ddatblygu Partneriaeth Bwyd Cynaladwy gyda chymorth Synnwyr Bwyd Cymru. Cadarnhaodd CM fod y cais yn llwyddiannus, a bod £97,000 wedi'i ddyrannu i Geredigion - caiff £37,000 ei wario ar gydlynydd prosiect, tra bydd £60,000 yn cael ei neilltuo ar gyfer prosiectau. Mae disgwyl i gyfarfod o'r Grŵp Llywio Grant Partneriaethau Bwyd Lleol gael ei drefnu yn yr wythnos nesaf lle bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal. Mae'r arian yn cael ei reoli ar hyn o bryd gan Eirlys Lloyd (Rheolwr Partneriaethau Cymunedol, Economi ac Adfywio), ond rhagwelir y bydd y gweithgareddau a fydd yn cael eu cynnal fel rhan o'r grant yn cysylltu â gwaith y BGC a'i is-grwpiau. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'n fuddiol i is-grŵp Llanbedr Pont Steffan dderbyn diweddariad yn y cyfarfod nesaf ynglŷn â chynigion ar gyfer gwariant a datblygiadau o ran penodi cydlynydd.
**CAM GWEITHREDU: CM i rannu copi o'r Cais Grant Partneriaethau Bwyd Lleol.**
**CAM GWEITHREDU: Y Tîm Partneriaethau i wahodd Eirlys Lloyd i'r cyfarfod nesaf i gyflwyno diweddariad.**

**5.5 Adborth Grŵp Gorchwyl a Gorffen – Sara Dafydd**

Cynigiwyd yn y cyfarfod blaenorol fod grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei sefydlu er mwyn canolbwyntio ar gysoni gweithredoedd amryw o ymdrechion datblygu cymunedol yn Llanbedr Pont Steffan, gan ganolbwyntio'n benodol ar fwyd. Dywedodd SD fod cyfarfod wedi'i gynnal, ac roedd Carwyn Young (CY), Hazel Thomas (HT), Julia Lim (JL) a Terri-Ann Patrick (TAP) yn bresennol. Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn rhoi trosolwg o'u meysydd gwaith, yn benodol mewn perthynas â bwyd a lles, a thrafodwyd syniadau ynghylch sut y gallai gweithgareddau parhaus ac yn y dyfodol ategu a chyfoethogi ei gilydd, yn hytrach na chystadlu a dyblygu ymdrechion.

Cafwyd sgyrsiau ynghylch y datblygiadau diweddaraf yr Hwb Lles, ac er y bydd yn ganolfan ar gyfer darpariaeth gwasanaeth CSC, cadarnhaodd CY yn y cyfarfod Tasg a Gorffen mai'r gobaith yw y bydd cyfleoedd i grwpiau 3ydd sector gynnal sesiynau o'r Hwb. Dywedodd SD fod pwysigrwydd gwaith pontio'r cenedlaethau hefyd wedi'i drafod yn y cyfarfod, gyda'r grŵp yn ystyried cyfleoedd i'r genhedlaeth iau a hŷn ddysgu oddi wrth ei gilydd. Yn benodol, nododd TAP y dylid ystyried sicrhau bod cymorth yn cael ei ymestyn i breswylwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu yn ogystal ag unigolion sydd angen gofal / sydd â chyd-gyflyrrau cronig ac nad ydynt yn gallu gadael y tŷ. Trafododd y grŵp gysylltu ag ysgolion lleol i gwmpasu cyfleoedd i ddosbarthu blychau bwyd i'r rhai mwyaf agored i niwed fel y nodwyd gan Dîm Nyrsio'r Ardal, neu ddosbarthu prydau bwyd wedi'u coginio gan Grwpiau Ieuenctid. Nododd Deiniol Williams (DW) fod Ysgol Bro Pedr yn awyddus i wneud mwy o waith pontio'r cenedlaethau, ac fe gadarnhaodd GDJ y byddai ystyriaeth yn cael ei roi i'r modd y gallai myfyrwyr gyfrannu.

Cytunodd y grŵp fod y Cysylltwyr Cymunedol yn hanfodol bwysig er mwyn codi ymwybyddiaeth o lwybrau cymorth yn Llanbedr Pont Steffan a'r cyffiniau, ac fe gadarnhaodd SD, yn dilyn trafodaeth gyda'r Cadeirydd taw'r gobaith oedd y byddai'r Cysylltwyr Cymunedol yn gallu rhoi cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf. Dywedodd SD fod trafodaeth hefyd wedi cael ei chynnal ymghylch fforwm priodol i grwpiau cymunedol ddefnyddio er mwyn trafod syniadau, rhwydweithio a hyrwyddo unrhyw weithgareddau a mentrau lleol. Er y ystyriwyd safle *Teams* a grŵp *WhatsApp*, cytunodd y grŵp y byddai'n fuddiol edrych mewn i sut y gallai platfform *Cysylltu Ceredigion* gefnogi hyn. Cadarnhaodd SD y bydd cyswllt yn cael ei wneud gyda CAVO i drafod sut y gellid defnyddio'r platfform. Bydd y grŵp Tasg a Gorffen yn ailymgynnull cyn cyfarfod nesaf yr is-grŵp.

**CAM GWEITHREDU: SD** i **gysylltu â CAVO i drafod *Cysylltu Ceredigion*.**

**CAM GWEITHREDU: SD i drefnu rhoi cyflwyniad ar y Cysylltwyr Cymunedol yn y cyfarfod nesaf.**

**<u>5.6 Diweddariad Canolfan Llesiant – Carwyn Young</u>**

Cadarnhaodd CY fod y gwaith adeiladu yn y Ganolfan Les wedi dechrau ym mis Awst 2022 sy'n fuddsoddiad o £1.8 miliwn. Cadarnhawyd bod y gwasanaethau a ddarparwyd gan y Ganolfan Hamdden wedi adleoli i'r Brifysgol tra bod y gwaith adeiladu yn digwydd. Rhannodd CY luniau yn dangos cynnydd i'r gwaith adeiladu a darluniau o gynllun y Ganolfan, sy'n cynnwys gweithgaredd ystafell amlbwrpas mawr, cegin ac ystafell teulu / ieuenctid.

Nododd CY fod y gwaith adeiladu i fod i gael ei gwblhau erbyn diwedd Chwefror 2024, gyda'r bwriad o agor ym mis Ebrill 2024. Holodd Teleri Davies (TD) a fydd cynllun cyfathrebu a fydd yn amlinellu ar gyfer trigolion yr hyn a gynigir yn y Ganolfan, a chadarnhaodd CY y bydd gwybodaeth yn cael ei dosbarthu trwy'r Gwasanaeth Cyfathrebu a Clic, ac y bydd trigolion a gwasanaethau yn gallu gweld newidiadau diriaethol ar lawr o ran sut y gellid defnyddio'r Ganolfan. Yn dilyn ymholiad ar faint y

DRAFT

neuadd chwaraeon gan y Cynghorydd Ann Bowen Morgan, cadarnhaodd CY y bydd yn parhau i fod yn ofod o bwys a all gynnwys y gweithgareddau a gynhaliwyd yno yn flaenorol. Atgyfnerthodd y Cadeirydd y bydd y prosiect yn esblygu dros amser, gyda gwasanaethau'n dod yn agosach i Lanbedr Pont Steffan a'r cyffiniau.

**5.7 Cyflwyniad Canolfan Tir Glas – Gwilym Dyfri Jones**

Eglurodd GDJ fod Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi bod yn llunio cynllun datblygu campws ar gyfer y 10-20 mlynedd nesaf, gweledigaeth o'r enw Tir Glas. Mae'n gynllun hir dymor a fydd yn ysgogi gweithgarwch economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn yr ardal ac yn chwistrellu bywyd ac ynni newydd i'r dref. Mae'n fenter gydweithredol a fydd yn gweld y Brifysgol yn cydweithio'n agos â Chyngor Sir Ceredigion, Coleg Ceredigion a Choleg Sir Gâr, Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan, Partneriaeth Canolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru a'r DU. Y gobaith yw y bydd y datblygiad yn codi proffil Llambed, yn sicrhau dyfodol cynaliadwy tymor hir ac yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i drigolion y dref. Cadarnhaodd GDJ fod cydrannau o'r weledigaeth hon wedi dwyn ffrwyth yn dilyn sgyrsiau gyda'r gymuned.

Mae 6 elfen i Dir Glas:
1. *Pentref Bwyd Pontfaen:* Mae cais cynllunio wedi cael ei gyflwyno i CSC i ddatblygu pentref bwyd ar gaeau Pontfaen.
2. *Canolfan Bwyd Cymunedol:* Y gobaith yw y bydd y cysyniad hwn yn darparu presenoldeb yng nghanol tref PCYDDS.
3. *Academi Bwyd Cyfoes Cymru:* Bydd y gydran hon yn seiliedig ar y campws a bydd yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd bwyd.
4. *Hwb Menter Wledig:* Bydd y Canolbwynt yn ceisio cefnogi myfyrwyr ac aelodau o'r gymuned sy'n ceisio dechrau busnesau.
5. *Canolfan Cymru ar gyfer Gwydnwch a Chytgord:* Bydd y Ganolfan yn canolbwyntio ar adeiladu gwydnwch lleol.
6. *Canolfan Datblygu Pren a Pherfformiad Adeiladu Cymru* : Mae'r gydran hwn yn edrych i ganolbwyntio ar hynodrwydd ffisegol a mecanyddol pren yng Nghymru a sut mae hyn yn effeithio ar y ffordd y gellir ei ddefnyddio i wahanol ddibenion adeiladu.

Mae gwerthoedd Tir Glas yn cynnwys perchnogaeth a rheolaeth leol drwy annog y gymuned i gymryd rhan yn y datblygiadau, hyrwyddo datblygiad cymdeithasol ac economaidd a chysylltu ag ymarferwyr lleol a chenedlaethau'r dyfodol. Nododd GDJ erbyn 2028, y gobaith yw y bydd Llanbedr Pont Steffan wedi'i thrawsnewid yn gyrchfan fwyd lle bydd pobl yn teithio o bell i samplu'r cynnyrch gorau o Gymru, a bydd Campws y Brifysgol wedi'i ail-fywiogi gydag ystod o gyrsiau israddedig ac ôl-raddedig newydd. Eisoes mae buddsoddiad sylweddol wedi bod yn y weledigaeth hon gan PCDDS a CSC, ac mae cais pellach wedi cael ei wneud ar gyfer cyllid Bargen Twf Canolbarth Cymru.

**5.8 Diweddariad: Cynllun Llesiant Lleol 2023-28 – Naomi McDonagh**

Dywedodd NMc fod y cyfnod ymgynghori ar gyfer y Cynllun Lles Lleol drafft yn parhau, a bydd yn dod i ben ar 31 Ionawr 2023. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'n rhaid i'r ymgynghoriad redeg am 12 wythnos. O ran ymgysylltu, dywedodd NMc fod Datganiad i'r Wasg a negeseuon cyfryngau cymdeithasol wedi mynd allan gyda rownd ychwanegol wedi'i drefnu ar gyfer 17 Ionawr 2023, tudalennau gwe perthnasol gan gynnwys gwefan Ymgynghoriadau ar wefan Cyngor Sir Ceredigion wedi'i diweddaru, ac mae cydweithwyr yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cael copi o becyn digidol o adnoddau i'w rhannu â'u priod Dimau Cyfathrebu. Cysylltwyd â chyfanswm o 32 o randdeiliaid yn hyrwyddo'r ymgynghoriad ac yn gofyn iddynt ei ddosbarthu ymhlith eu rhwydweithiau, gan gynnwys aelodau etholedig, Cynghorau Tref a Chymuned, Fforwm Anabledd a Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.

Mae copïau papur o'r Cynllun drafft, ffurflenni ymateb, fersiynau *Easy Read* a fersiynau pobl ifanc yn ogystal â phosteri gyda chodau *QR* hefyd ar gael yn holl lyfrgelloedd Ceredigion, gan gynnwys faniau y llyfrgell symudol. Mae copïau papur o'r dogfennau ymgynghori hefyd wedi'u dosbarthu i Mirus a Mencap. Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu a hwyluswyd gan y Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu ar gyfer Cymru gyda 13 o ysgolion cynradd a 3 ysgol uwchradd, gydag adborth ardderchog yn cael ei dderbyn. Cadarnhaodd NMc fod fersiynau sy'n gyfeillgar i blant o'r adborth yn y broses o gael eu cynhyrchu. Cafodd yr ymgynghoriad hefyd ei hyrwyddo mewn Digwyddiad Pride Gaeaf LHDTC+ a gynhaliwyd yn Sir Gaerfyrddin.

Cadarnhaodd NMc y byddai e-bost atgoffa yn cael ei ddosbarthu yn fuan, ac anogodd bartneriaid nad ydynt eto wedi cyfrannu i wneud hynny cyn y dyddiad cau. Bydd angen dadansoddi'r ymatebion a diwygio'r Cynllun drafft i adlewyrchu'r adborth a gafwyd cyn ei gytuno'n derfynol gan aelodau'r BGC ym mis Ebrill. Dywedodd NMc fod gan y BGC ofyniad statudol i gyhoeddi'r Cynllun Llesiant Lleol newydd 2023 erbyn mis Mai.
**CAM GWEITHREDU: Y Tîm Partneriaethau i ddosbarthu e-bost atgoffa ar ymgynghoriad y Cynllun Llesiant Lleol.**

**5.9 Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i'r ymgynghoriad Cynllun Lles Lleol – Rachel Jarvis**

Cyflwynodd Rachel Jarvis (RJ) gyflwyniad ar broses ymgynghori a chymeradwyo Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Gan fod angen i Fwrdd CNC gymeradwyo a llofnodi 14 o Gynlluniau Llesiant ledled Cymru, crewyd fframwaith cenedlaethol i lywio ymatebion i'r ymgynghoriad a gwneud argymhellion clir i'r BGC. Cafodd copi o'r ymateb drafft ei ddosbarthu i aelodau'r grŵp i'w hystyried cyn y cyfarfod, a chroesawyd unrhyw sylwadau, cwestiynau neu adborth. Esboniodd RJ fod yr ymateb wedi'i strwythuro gan ddefnyddio Fframwaith Cenedlaethol CNC, a bod 5 categori allweddol wedi'u defnyddio er mwyn adolygu pob un o'r Amcanion Lles. Nod y dull gweithredu yw hwyluso'r broses o gymeradwyo'r Cynllun gan Fwrdd CNC, a sicrhau bod y sefydliad, ochr yn ochr â phartneriaid, yn gallu cyflawni'r nodau a'r amcanion a amlinellir.

Cafwyd trosolwg o'r ymateb drafft gan RJ, gan gynnwys Adborth CNC, Dyheadau ar gyfer Cyflawni Cynlluniau Llesiant y Dyfodol a Chyfraniadau CNC yn erbyn pob Amcan arfaethedig. O ran Lles Economaidd, esboniodd RJ yr hoffai CNC i'r Cynllun alinio'n well â Bargen Twf Canolbarth Cymru (BTCC), gan atgyfnerthu'r potensial ar gyfer Brexit a Chynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru sydd newydd ei gynnig, i sbarduno newid sylweddol, hyrwyddo cefnogaeth ar gyfer caffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol ac amlygu asedau naturiol yn ogystal ag ariannol. Nododd RJ fod CNC yn falch bod y Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd mynediad i fannau gwyrdd a glas fel rhan o'r Amcan Lles Cymdeithasol, ond eu bod yn awyddus i weld cyfeiriad at drafnidiaeth gynaliadwy, ymgysylltu mwy â chymunedau, a chydnabod yr effaith anghymesur ar gymunedau penodol pan ddaw at risgiau a pheryglon amgylcheddol. O ran Lles Amgylcheddol, nododd RJ y bu trafodaeth helaeth mewn cyfarfodydd is-grŵp eraill ynglŷn â'r cyfeiriad at ansawdd dŵr a llygredd ffosffad, ac y cytunwyd y byddai term ymbarél ansawdd dŵr yn cael ei gadw a fyddai hefyd yn caniatáu ystyried materion eraill sy'n ymwneud â dŵr fel yr amgylchedd morol. Dywedodd RJ y byddai CNC mewn sefyllfa cryf i arwain ar o Risg Hinsawdd ac Asesiad Cyfleoedd er mwyn llywio sut i ddatblygu dull wedi'i dargedu ar gyfer addasu i'r hinsawdd yng Ngheredigion. Mewn ymateb i a ellid cyfeirio at droseddau gwledig ac amgylcheddol fel rhan o'r Amcan Lles Diwylliannol, dywedodd NMc fod Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion yn cynnal Asesiad Strategol o Drosedd ac Anrhefn a fydd yn rhoi syniad o'r prif faterion sy'n effeithio ar yr ardal leol ar hyn o bryd. Cadarnhaodd RJ, unwaith y bydd y 3 is-grŵp BGC wedi cael cyfle i fyfyrio ar yr ymateb drafft a chyflwyno unrhyw ymholiadau ac adborth, y bydd y ddogfen yn cael ei diwygio a'i chyflwyno fel ymateb terfynol i'r BGC.

**5.10 Unrhyw Fater Arall**

Atgoffodd y Cadeirydd aelodau bod papurau cyfarfod yn cael eu huwchlwytho i safle *MS Teams* yr is-grŵp. Gwnaed cais i unrhyw aelodau sy'n methu cael mynediad i'r safle *Teams* i gysylltu â SD, ac i gynnwys unrhyw aelod newydd i'r Tîm.

**CAM GWEITHREDU: Pob aelod i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad i safle'r *Teams*, a chysylltu â SD os nad ydynt. SD i wneud yn siŵr bod aelodau newydd yn cael eu hychwanegu at *Teams*.**

Fel rhan o adnewyddu cynlluniau a blaenoriaethau strategol, dywedodd NMc fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHDd) yn bwriadu symud tuag at Fodel Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Llesiant (SM4HWB), gyda ffocws hirdymor ar atal wedi'i yrru gan y gymuned. Fel rhan o drafodaethau ar y cynnig hwn, mae Llanbedr Pont Steffan wedi'i nodi fel maes ffocws posibl i lywio'r darn hwn o waith, ac o'r herwydd, cynigiodd NMc fod yr SM4Hwb yn cael ei gynnwys fel eitem sefydlog ar Agenda'r is-grŵp wrth symud ymlaen, gan ddarparu cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf yn amlinellu manylion pellach.

DRAFT

| |
|---|
| **CAM GWEITHREDU: Cyflwyniad SM4HWB i'w ddarparu yn y cyfarfod nesaf, a gwahoddodd cynrychiolwyr priodol (BIPHDd) i fod yn bresennol.**<br>**CAM GWEITHREDU: Pob cyflwynydd i ddosbarthu eu cyflwyniadau i SD, a'r Tîm Partneriaethau i'w rhannu â'r is-grŵp.** |
| **Cyfarfod nesaf:** 20-04-23, 10:00-12:00 |

DRAFT